🌊 **Cynllun Lleoliad Peirianneg Amgylcheddol Cymru 2025/26.**

***Gwneud gwahaniaeth go iawn i'n hamgylchedd a'n cymunedau yng Nghymru***

---

Ydych chi'n chwilio am yrfa lle gallwch wneud gwahaniaeth go iawn i'n hamgylchedd yng Nghymru?

Ydych chi wedi ystyried gyrfa mewn **peirianneg amgylcheddol gan fynd i'r afael â materion pwysig megis llifogydd, erydu arfordirol, adfer etifeddiaeth mwyngloddiau neu ddraenio cynaliadwy**? Fel peiriannydd amgylcheddol gallwch wneud gwahaniaeth i faterion amgylcheddol sydd wirioneddol o bwys i bobl yng Nghymru a dechrau ar yrfa gyffrous.

Wrth i'n hinsawdd newid, mae Cymru yn wynebu heriau newydd, o lawiad mwy dwys a lefel y môr yn codi i sychder. Mae'r newidiadau hyn yn cynyddu'r risg o lifogydd, gan fygwth tai, isadeiledd a bywydau. Maent hefyd yn dod â heriau newydd o ran rheoli etifeddiaeth ein gorffennol diwydiannol — yn enwedig hen safleoedd mwyngloddio ar draws y wlad, a all gyflwyno risgiau amgylcheddol a diogelwch ychwanegol os ydynt yn cael eu haflonyddu.

Os ydych yn angerddol am ddiogelu pobl a'r amgylchedd yng Nghymru, gall gyrfa mewn peirianneg amgylcheddol fod i chi. Dyma eich cyfle i helpu i adeiladu Cymru fwy diogel a gwydn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

---

***Lansiwch eich gyrfa gyda lleoliad gwaith deg mis o hyd â thâl***

Mae Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chynghorau sy'n cymryd rhan, yn cynnig **lleoliadau gwaith deg mis o hyd â thâl** i'ch helpu i gymryd eich camau cyntaf i'r byd peirianneg amgylcheddol — gyda phwyslais ar reoli risg llifogydd ac arfordirol, adfer etifeddiaeth mwyngloddiau a draenio.

***Beth sy'n cael ei gynnig?***

- 📅 ***Hyd y Lleoliad Gwaith***: *12 mis*
- 💼 ***Sefydliadau Cynnal***: *Cyngor Gwynedd*
- 🎓 ***Cymorth***: *Hyfforddiant mewn gwaith, mentora a datblygiad proffesiynol*
- 🌱 ***Canlyniadau***: *Profiad go iawn, sgiliau newydd a charreg camu i yrfa hirdymor.*

**Ceisiadau**

Mae'r Rhaglen yn croesawu ceisiadau gan ystod eang o gefndiroedd — yr hyn sydd bwysicaf yw eich **diddordeb yn yr amgylchedd** a'ch cymhelliant i **adeiladu gyrfa** yn y sector cyffrous a heriol hwn. Cyfeiriwch at hysbysebion y Cyngor ar gyfer manylion penodol.

Efallai eich bod

- Ar fin cwblhau eich astudiaethau, gyda chymhwyster perthnasol ar lefel gradd*[1] ac yn chwilio am gyfle lleoliad gwaith, neu
- yn gweithio mewn maes perthnasol*[2], gyda phrofiad gwaith perthnasol*[2] ac yn chwilio am lwybr gyrfa newydd.

**Cynhwysol a chefnogol**

Trwy'r Rhaglen, rydym yn annog ceisiadau gan unigolion sy'n cael eu tangynrychioli yn y sector ar hyn o bryd, yn cynnwys merched, pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl a siaradwyr Cymraeg.

***Beth sy'n digwydd ar ôl y lleoliad?***

Ar ôl eich lleoliad, efallai byddwch yn dychwelyd i'ch astudiaethau, efallai bydd gennych gyfle i barhau gyda'ch cyflogwr cynnal, neu efallai byddwch yn defnyddio eich profiad a'ch sgiliau newydd i sicrhau rôl yn rhywle arall.  Byddwch yn rhan o rwydwaith ehangach o gyfranogwyr lleoliad ar draws Cymru ac yn cael gwybod am gyfleoedd yn y dyfodol yn y sector.

---

---

*[1] bydd cymhwyster perthnasol yn cynnwys unrhyw bwnc sy'n ymwneud â Gwyddoniaeth, Peirianneg, Daearyddiaeth, Daeareg, Mathemateg, Hydroleg, Adnoddau Dŵr, Mwyngloddio a phynciau perthnasol.

*[2] mae profiad perthnasol yn eang iawn a gall gynnwys unrhyw rolau amgylcheddol, peirianneg, rheoli prosiect, isadeiledd, gwasanaethau amgylcheddol neu brofiad perthnasol yn gweithio mewn neu gyda llywodraeth ganolog neu lywodraeth leol

---